



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2016 Rhif 88 (Cy. 42)

2016 No. 88 (W. 42)

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

**CHILDREN AND YOUNG
PERSONS, WALES**

Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006
(Asesiadau Awdurdodau Lleol)
(Cymru) 2016

The Childcare Act 2006 (Local
Authority Assessment) (Wales)
Regulations 2016

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli, gyda newidiadau, Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2013.

Mae rheoliad 3 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiadau o ddigonolrwydd gofal plant.

Mae rheoliad 4 yn gwneud yn ofynnol i gynllun gweithredu gael ei baratoi fel rhan o asesiad yr awdurdod lleol.

Mae rheoliad 5 yn cyflwyno'r Atodlen sy'n rhagnodi'r materion y mae rhaid eu cynnwys yn yr asesiad.

Mae rheoliadau 6 a 7 yn rhagnodi'r personau y gallai awdurdodau lleol ystyried ymgynghori â hwy a'r personau y mae rhaid iddynt ymgynghori â hwy wrth lunio'r asesiad.

Mae rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi'r cyfle i'r personau y maent wedi ymgynghori â hwy gyflwyno sylwadau ar yr asesiad drafft cyn iddo gael ei gyhoeddi.

Mae rheoliadau 10 a 11 yn ymdrin â'r gofyniad i gyhoeddi'r asesiad drafft.

Mae rheoliad 12 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiadau cynnydd blynyddol i Weinidogion Cymru.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2016.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations revoke and replace, with changes, the Childcare Act 2006 (Local Authority Assessment) (Wales) Regulations 2013.

Regulation 3 imposes a duty upon local authorities to carry out childcare sufficiency assessments.

Regulation 4 sets out a requirement for an action plan to be prepared as part of the local authority's assessment.

Regulation 5 introduces the Schedule which prescribes the matters that must be contained in the assessment.

Regulations 6 and 7 prescribe the persons who local authorities could consider consulting and the persons they must consult in preparing the assessment.

Regulation 8 requires local authorities to allow the persons who have been consulted the opportunity to comment upon the draft assessment before publication.

Regulations 10 and 11 deal with the requirement to publish the draft assessment.

Regulation 12 requires local authorities to submit annual progress reports to the Welsh Ministers.

These Regulations come into force on 1 April 2016.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from the Education and Public Services Group, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2016 Rhif 88 (Cy. 42)

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

**Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006
(Asesiadau Awdurdodau Lleol)
(Cymru) 2016**

Gwnaed 27 Ionawr 2016
*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 29 Ionawr 2016
Yn dod i rym 1 Ebrill 2016

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 26(1)(a) a (2) o Ddeddf Gofal Plant 2006(1) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(2), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Asesiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2016.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2016.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—
ystyr “asesiad” (“*assessment*”) yw'r asesiad a gynhelir gan awdurdod lleol yn unol â'r Rheoliadau hyn;

2016 No. 88 (W. 42)

**CHILDREN AND YOUNG
PERSONS, WALES**

**The Childcare Act 2006 (Local
Authority Assessment) (Wales)
Regulations 2016**

Made 27 January 2016
*Laid before the National Assembly
for Wales* 29 January 2016
Coming into force 1 April 2016

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the National Assembly for Wales by sections 26(1)(a) and (2) of the Childcare Act 2006 (1) and now vested in them(2) make the following Regulations.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Childcare Act 2006 (Local Authority Assessment) (Wales) Regulations 2016.

(2) These Regulations come into force on 1 April 2016.

(3) These Regulations apply in relation to Wales.

Interpretation

2.—(1) In these Regulations—
“the Act” (“*y Ddeddf*”) means the Childcare Act 2006;

(1) 2006 p. 21.
(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 26 o Ddeddf Gofal Plant 2006 i Weiniogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(1) 2006 c. 21.
(2) The functions of the National Assembly for Wales under section 26 of the Childcare Act 2006 transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

mae i “cyfnod sylfaen” (“*foundation phase*”) yr ystyr a roddir yng Ngorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2014(1);

ystyr “darparwr gofal plant” (“*childcare provider*”) yw unrhyw berson sydd wedi ei gofrestru o dan Ran 2 o’r Mesur i ddarparu gofal plant;

ystyr “darparwyr gofal plant yn y cartref” (“*home childcare providers*”) yw personau a gymeradwyir o dan gynllun a wneir gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 12 o Ddeddf Credydau Treth 2002(2);

mae i “diwrnod ysgol” yr ystyr a roddir i (“*school day*”) yn adran 579 o Ddeddf Addysg 1996;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Gofal Plant 2006;

ystyr “fforwm addysg cyfrwng Cymraeg” (“*Welsh medium education forum*”) yw corff a sefydlir gan awdurdod lleol at ddiben gwella’r ddarpariaeth o addysg cyfrwng Cymraeg yn ei ardal, y mae ei aelodaeth yn cynnwys yr awdurdod lleol a’r personau eraill hynny y mae’r awdurdod lleol yn ystyried eu bod yn briodol(3);

mae i “gofal dydd” (“*day care*”) yr ystyr a roddir yn Rhan 2 o’r Mesur;

mae i “gofal plant” yr ystyr a roddir i (“*childcare*”) yn adran 30 o’r Ddeddf;

ystyr “grŵp monitro chwarae” (“*play monitoring group*”) yw grŵp a sefydlir gan awdurdod lleol at ddiben sicrhau cyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant yn ei ardal, y mae ei aelodaeth yn cynnwys yr awdurdod lleol a’r personau eraill hynny y mae’r awdurdod lleol yn ystyried eu bod yn briodol;

mae i “gwarchod plant” (“*child minding*”) yr ystyr a roddir yn Rhan 2 o’r Mesur;

ystyr “mangre berthnasol” (“*relevant premises*”) yw mangre y mae person yn gweithredu fel darparwr gofal plant ynddi;

ystyr “y Mesur” (“*the Measure*”) yw Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(4);

mae i “oedran ysgol gorfodol” yr ystyr a roddir i (“*compulsory school age*”) yn adran 8 o Ddeddf Addysg 1996(5).

“the Measure” (“*y Mesur*”) means the Children and Families (Wales) Measure 2010(1);

“assessment” (“*asesiad*”) means the assessment carried out by a local authority in accordance with these Regulations;

“child minding” (“*gwarchod plant*”). has the meaning in Part 2 of the Measure;

“childcare” (“*gofal plant*”) has the meaning in section 30 of the Act;

“childcare provider” (“*darparwr gofal plant*”) means any person who is registered under Part 2 of the Measure to provide childcare;

“day care” (“*gofal dydd*”) has the meaning in Part 2 of the Measure;

“foundation phase” (“*cyfnod sylfaen*”) has the meaning in the Education (National Curriculum) (Foundation Phase) (Wales) Order 2014(2);

“home childcare providers” (“*darparwyr gofal plant yn y cartref*”) means persons approved under a scheme made by the Welsh Ministers pursuant to section 12 of the Tax Credits Act 2002(3);

“play monitoring group” (“*grŵp monitro chwarae*”) means a group established by a local authority for the purpose of securing sufficient play opportunities for children in its area, the members of which consist of the local authority and such other persons as the local authority considers appropriate;

“relevant premises” (“*mangre berthnasol*”) means premises on which a person acts as a childcare provider;

“Welsh medium education forum” (“*fforwm addysg cyfrwng Cymraeg*”) means a body established by a local authority for the purpose of improving the provision of Welsh medium education in its area, the members of which consist of the local authority and such other persons as the local authority considers appropriate(4).

(1) O.S. 2014/1996.

(2) 2002 p. 21.

(3) Gweler Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu’r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 – O.S. 2013/3048 (Cy. 307).

(4) 2010 mccc 1.

(5) 1996 p. 56.

(1) 2010 nawm 1.

(2) S.I. 2014/1996.

(3) 2002 c. 21.

(4) See the Welsh in Education Strategic Plans and Assessing Demand for Welsh Medium Education (Wales) Regulations 2013 – S.I. 2013/3048 (W 307).

- (2) Yn y Rheoliadau hyn, y mathau o ofal plant yw—
- (a) gwarchod plant;
 - (b) pob un o'r mathau o ofal dydd a nodir mewn safonau a wneir gan Weinidogion Cymru o bryd i'w gilydd ac y mae rhaid rhoi sylw iddynt yn unol ag adran 30(3) o'r Mesur; ac
 - (c) darparwyr gofal plant yn y cartref (nanis).

Y ddyletswydd i lunio a chyhoeddi asesiadau

3.—(1) Rhaid i'r awdurdod lleol lunio a chyhoeddi asesiadau o ddigonolrwydd y gofal plant a ddarperir yn ei ardal.

(2) Rhaid cyhoeddi'r asesiad cyntaf erbyn 31 Mawrth 2017.

(3) Rhaid llunio a chyhoeddi asesiadau dilynol bob pum mlynedd.

(4) Wrth lunio asesiad rhaid i'r awdurdod lleol roi sylw i unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru.

(5) Rhaid i'r awdurdod lleol anfon copi o'r asesiad a lunnir o dan baragraffau (2) a (3) i Weinidogion Cymru.

Cynllun Gweithredu

4.—(1) Rhaid i bob asesiad a lunnir gan yr awdurdod lleol gynnwys cynllun gweithredu.

(2) Pan fo asesiad yn nodi—

- (a) bod y ddarpariaeth gofal plant yn annigonol yn yr ardal awdurdod lleol, rhaid i'r cynllun gweithredu nodi pa gamau y mae angen eu cymryd i wella'r cyfleoedd i blant gael mynediad i ddarpariaeth gofal plant o fewn yr ardal awdurdod lleol honno, neu
- (b) bod y cyfleoedd i blant gael mynediad i ofal plant yn ddigonol, yn yr ardal awdurdod lleol, rhaid i'r cynllun gweithredu nodi pa gamau y mae angen eu cymryd i gynnal y cyfleoedd i gael mynediad i ofal plant o fewn yr ardal awdurdod lleol honno.

Y materion sydd i gael eu cynnwys yn yr asesiad

5. Mae'r Atodlen (sy'n rhagnodi'r materion y mae rhaid eu cynnwys yn yr asesiad) yn cael effaith.

Ymgynghori

6. Wrth lunio'r asesiad, rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r rhai o blith y canlynol yn ei ardal, y mae'n ystyried eu bod yn briodol—

- (a) plant;

- (2) In these Regulations, the types of childcare are—
- (a) child minding;
 - (b) each of the types of day care identified in standards made by the Welsh Ministers from time to time and to which regard must be had pursuant to section 30(3) of the Measure; and
 - (c) home childcare providers (nannies).

Duty to prepare and publish assessments

3.—(1) The local authority must prepare and publish assessments of the sufficiency of the provision of childcare in its area.

(2) The first assessment must be published by 31 March 2017.

(3) Subsequent assessments must be prepared and published at five yearly intervals.

(4) In preparing an assessment the local authority must have regard to any guidance given by the Welsh Ministers.

(5) The local authority must send a copy of the assessment prepared under paragraphs (2) and (3) to the Welsh Ministers.

Action Plan

4.—(1) Each assessment prepared by the local authority must include an action plan.

(2) Where an assessment identifies—

- (a) an insufficiency in childcare provision for children in the local authority area, the action plan must set out what steps need to be taken to improve the opportunities for children to access childcare provision within that local authority area, or
- (b) that opportunities for children to access childcare in the local authority area are sufficient, the action plan must set out what steps need to be taken to maintain opportunities for children to access childcare within that local authority area.

Matters to be contained in the assessment

5. The Schedule (which prescribes the matters which must be contained in the assessment) has effect.

Consultation

6. In preparing the assessment the local authority must consult such of the following in its area, as it considers appropriate—

- (a) children;

- (b) rhieni neu ofalwyr;
- (c) darparwyr gofal plant;
- (d) personau sy'n cynrychioli—
 - (i) plant;
 - (ii) rhieni neu ofalwyr;
 - (iii) darparwyr gofal plant;
- (e) personau a chanddynt fuddiant mewn gofal plant;
- (f) personau sy'n cynrychioli'r rheini a chanddynt fuddiant mewn gofal plant;
- (g) personau sy'n cynrychioli cyflogwyr a chyrrff cyflogwyr lleol;
- (h) cyflogwyr lleol;
- (i) awdurdodau lleol cyfagos;
- (j) ysgolion;
- (k) colegau addysg bellach.

7. Wrth lunio'r asesiad, rhaid i'r awdurdod lleol—

- (a) ymgynghori â'r canlynol—
 - (i) y Bwrdd Diogelu Plant y mae'n bartner Bwrdd Diogelu iddo(1);
 - (ii) os yw wedi ei sefydlu yn ardal yr awdurdod lleol, y fforwm addysg cyfrwng Cymraeg;
 - (iii) os yw wedi ei sefydlu yn ardal yr awdurdod lleol, y grŵp monitro chwarae; a
- (b) hysbysu unrhyw swyddfydd Canolfan Byd Gwaith yn ardal yr awdurdod lleol a'u gwahodd i gyflwyno unrhyw sylwadau.

Asesiad Drafft

8. Cyn cyhoeddi'r asesiad a lunnir o dan y Rheoliadau hyn, rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi drafft o'r asesiad ar wefan yr awdurdod lleol am gyfnod o 28 o ddiwrnodau er mwyn rhoi'r cyfle i'r personau y mae wedi ymgynghori â hwy gyflwyno sylwadau ar y drafft.

9. Rhaid i'r awdurdod lleol ddiwygio'r asesiad drafft yn y ffordd sy'n briodol yn ei farn ef wrth ymateb i unrhyw sylwadau a geir.

Dull cyhoeddi'r asesiad

10. Rhaid i'r awdurdod lleol gyhoeddi'r asesiad ar wefan yr awdurdod lleol.

(1) Adran 134(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – 2014 dccc 4.

- (b) parents or carers;
- (c) childcare providers;
- (d) persons representing—
 - (i) children;
 - (ii) parents or carers;
 - (iii) childcare providers;
- (e) persons with an interest in childcare;
- (f) persons representing those with an interest in childcare;
- (g) persons representing local employers and employer organisations;
- (h) local employers;
- (i) neighbouring local authorities;
- (j) schools;
- (k) further education colleges.

7. In preparing the assessment the local authority must—

- (a) consult—
 - (i) the Safeguarding Children Board of which it is a Safeguarding Board partner (1);
 - (ii) if established in the local authority's area, the Welsh medium education forum;
 - (iii) if established in the local authority's area, the play monitoring group; and
- (b) notify any Jobcentre Plus offices in the local authority's area and invite the submission of any views.

Draft Assessment

8. Prior to publishing the assessment prepared under these Regulations, the local authority must publish a draft of the assessment on the local authority's website for a period of 28 days to give the persons who have been consulted the opportunity to comment on the draft.

9. The local authority must amend the draft assessment in such way as they consider appropriate in response to any comments received.

Method of publication of assessment

10. The local authority must publish the assessment on the local authority's website.

(1) Section 134(2) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 – 2014 anaw 4.

11. Caiff yr awdurdod lleol ddarparu copïau o'r asesiad i'r cyhoedd ar gais.

Adroddiadau cynnydd blynyddol

12. Yn sgil cyhoeddi'r asesiad cyntaf, rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno i Weinidogion Cymru adroddiad blynyddol ar gynnydd—

- (a) yr asesiad cyntaf;
- (b) yr asesiadau dilynol sy'n ofynnol o dan reoliad 3(3).

Dirymu

13. Mae Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006 (Aseidiadau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2013(1) wedi eu dirymu.

11. The local authority may provide copies of the assessment to the public upon request.

Annual progress reports

12. Following the publication of the first assessment, the local authority must submit to the Welsh Ministers an annual report on the progress of—

- (a) the first assessment;
- (b) the subsequent assessments required by regulation 3(3).

Revocation

13. The Childcare Act 2006 (Local Authority Assessment) (Wales) Regulations 2013(1) are revoked.

Lesley Griffiths

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, un o
Weinidogion Cymru
27 Ionawr 2016

Minister for Communities and Tackling Poverty, one
of the Welsh Ministers
27 January 2016

Y materion sydd i gael eu cynnwys yn yr asesiad

Matters to be contained in the assessment

1. Yn yr Atodlen hon—

ystyr “elfen costau gofal plant o gredyd cynhwysol” (“*childcare costs element of universal credit*”) yw swm a gynhwysir mewn dyfarniad o gredyd cynhwysol o dan adran 12 o Ddeddf Diwygio Lles 2012(1) ac a ragnodir yn Rheoliadau Credyd Cynhwysol 2013(2);

ystyr “elfen costau gofal plant o gredyd treth gwaith” (“*childcare costs element of working tax credit*”) yw swm a gynhwysir mewn dyfarniad o gredyd treth gwaith o dan adran 12 o Ddeddf Credydau Treth 2002 ac a ragnodir yn Rheoliadau Credyd Treth Gwaith (Yr Hawl i’w Gael a’r Gyfradd Uchaf) 2002(3);

ystyr “gofal plant â chymorth cyflogwr” (“*employer supported childcare*”) yw cynllun cymorth a ddarperir gan gyflogwr sy’n gymwys i gael ymward rhag treth o dan adrannau 35 ac 36 o Ddeddf Cyllid 2011(4) ac Atodlen 8 iddi;

ystyr “gofal plant di-dreth” (“*tax free childcare*”) yw’r cynllun o dan adran 1 o Ddeddf Taliadau Gofal Plant 2014(5);

ystyr “hyd sesiwn” (“*session length*”) yw’r cyfnod hwyaf o amser y bydd darparwr gofal plant yn gofalu am blentyn mewn diwrnod;

ystyr “rhestr aros y darparwr gofal plant” (“*childcare providers waiting list*”) yw’r rhestr o’r ceiswyr sy’n aros am gynnig lle gofal plant oddi wrth y darparwr gofal plant mewn cysylltiad â phlentyn.

2. Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i asesiad yr awdurdod lleol gynnwys mewn cysylltiad â phob math o ofal plant a bennir yn rheoliad 2(2), fanylion ynghylch—

(a) cyfanswm nifer—

(i) y lleoedd gofal plant sydd wedi eu llenwi;

(ii) y lleoedd gofal plant sy’n ofynnol;

1. In this Schedule—

“childcare costs element of universal credit” (“*elfen costau gofal plant o gredyd cynhwysol*”) means an amount included in an award of universal credit under section 12 of the Welfare Reform Act 2012(1) and prescribed in the Universal Credit Regulations 2013(2);

“childcare costs element of working tax credit” (“*elfen costau gofal plant o gredyd treth gwaith*”) means an amount included in an award of working tax credit under section 12 of the Tax Credit Act 2002 and prescribed in the Working Tax Credit (Entitlement and Maximum Rate) Regulations 2002(3);

“childcare providers waiting list” (“*rhestr aros y darparwr gofal plant*”) means the list of applicants who await an offer from the childcare provider for a childcare place in respect of a child;

“employer supported childcare” (“*gofal plant â chymorth cyflogwr*”) means an employer support scheme that qualifies for tax relief under sections 35 and 36 of, and Schedule 8 to, the Finance Act 2011(4);

“session length” (“*hyd sesiwn*”) means the maximum period of time for which a childcare provider will care for a child in a day;

“tax free childcare” (“*gofal plant di-dreth*”) means the scheme under section 1 of the Childcare Payments Act 2014(5).

2. Subject to paragraph (3), the local authority’s assessment must include in respect of each type of childcare specified in regulation 2(2), details of—

(a) the total number of—

(i) childcare places filled;

(ii) childcare places required;

(1) 2012 p. 5.

(2) O.S. 2013/376 fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2015/1754.

(3) O.S. 2002/2005 fel y’i diwygiwyd gan O.S. 2003/701, O.S. 2004/1276, O.S. 2007/2479, O.S. 2010/918 ac O.S. 2013/1736.

(4) 2011 p. 11.

(5) 2014 p. 28.

(1) 2012 c. 5.

(2) S.I. 2013/376 as amended by S.I. 2015/1754.

(3) S.I. 2002/2005 as amended by S.I. 2003/701, S.I. 2004/1276, S.I. 2007/2479, S.I. 2010/918 and S.I. 2013/1736.

(4) 2011 c. 11.

(5) 2014 c. 28.

- | | |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <p>(b) nifer y lleoedd gofal plant llawnamser a rhan-amser—</p> <p>(i) sydd wedi eu llenwi;</p> <p>(ii) sy'n ofynnol;</p> <p>(c) nifer—</p> <p>(i) y lleoedd sydd wedi eu llenwi a'r nifer sy'n ofynnol, y caniateir i'r elfen costau gofal plant o gredyd treth gwaith neu'r elfen costau gofal plant o gredyd cynhwysol gael ei defnyddio ar eu cyfer;</p> <p>(ii) y lleoedd sydd wedi eu llenwi a'r nifer sy'n ofynnol, y gallai rhieni ddefnyddio gofal plant â chymorth cyflogwr neu ofal plant di-dreth ar eu cyfer;</p> <p>(iii) y lleoedd sydd wedi eu llenwi a'r nifer sy'n ofynnol gan blant ag anghenion addysgol arbennig neu y mae angen gofal arbenigol arnynt oherwydd anabledd;</p> <p>(iv) y lleoedd gofal plant am ddim sydd wedi eu llenwi a'r nifer sy'n ofynnol gan blant 2 flwydd oed;</p> <p>(v) y lleoedd cyfnod sylfaen am ddim sydd wedi eu llenwi, y nifer sy'n ofynnol a'r nifer sydd ar gael i blant 3 a 4 blwydd oed;</p> <p>(vi) y lleoedd sydd wedi eu llenwi a'r nifer sy'n ofynnol ar gyfer gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg;</p> <p>(vii) y lleoedd gwag; a</p> <p>(viii) y plant sydd ar restrau aros y darparwyr gofal plant;</p> <p>(d) yr adegau—</p> <p>(i) pan fo'r gofal plant yn ofynnol;</p> <p>(ii) pan fo'r gofal plant ar gael;</p> <p>(e) ystod y gwasanaethau a gynigir gan y darparwr gofal plant;</p> <p>(f) ystod yr hydoedd sesiwn a gynigir gan y darparwr gofal plant;</p> <p>(g) y math o ddarparwr gofal plant sy'n cynnig oriau hyblyg ar gyfer gofal plant;</p> <p>(h) nifer y darparwyr gofal plant sy'n cynnig oriau hyblyg ar gyfer gofal plant;</p> <p>(i) ystod oedran y plant yn y mathau o ofal plant a bennir yn rheoliad 2(2); a</p> <p>(j) ystod y taliadau ar gyfer y gofal plant.</p> | <p>(b) the number of full-time and part-time—</p> <p>(i) childcare places filled;</p> <p>(ii) childcare places required;</p> <p>(c) the number of—</p> <p>(i) places filled and required in respect of which the childcare costs element of working tax credit or the childcare costs element of universal credit may be used;</p> <p>(ii) places filled and required for which parents would be able to use employer supported childcare or tax free childcare;</p> <p>(iii) places filled and required for children who have special educational needs or who require specialist care due to a disability;</p> <p>(iv) free childcare places filled and required for children aged 2 years old;</p> <p>(v) free foundation phase places filled, required and available for children aged 3 and 4 years old;</p> <p>(vi) Welsh language places filled and required;</p> <p>(vii) vacant places; and</p> <p>(viii) children on childcare provider waiting lists;</p> <p>(d) the times at which—</p> <p>(i) the childcare is required;</p> <p>(ii) the childcare is available;</p> <p>(e) the range of services offered by the childcare provider;</p> <p>(f) the range of session lengths offered by the childcare provider;</p> <p>(g) the type of childcare provider that offers flexible childcare hours;</p> <p>(h) the number of childcare providers that offer flexible childcare hours;</p> <p>(i) the age range of children in the types of childcare specified in regulation 2(2); and</p> <p>(j) the range of charges for the childcare.</p> |
|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|

3. Nid yw'r manylion ym mharagraffau 2(iv) a (v) yn ofynnol mewn perthynas â darparwyr gofal plant yn y cartref.

3. The details in paragraphs 2(iv) and (v) are not required in relation to home childcare providers.

Dosbarthiad daearyddol

4. Rhaid i'r asesiad gynnwys manylion ynghylch—
- (a) dosbarthiad daearyddol pob math o ofal plant yn ardal yr awdurdod lleol; a
 - (b) unrhyw fylchau yn y dosbarthiad daearyddol hwnnw.

5. Caiff yr asesiad ystyried y gofal plant sydd ar gael y tu allan i ardal yr awdurdod lleol ond sydd ar gael i bobl sy'n byw yn yr ardal.

Cynaliadwyedd

6. Rhaid i'r asesiad gynnwys manylion unrhyw ffactorau sydd wedi effeithio ar gynaliadwyedd darparwyr gofal plant presennol yn ardal yr awdurdod lleol.

Ffigurau a thueddiadau rhagamcanol ar gyfer y boblogaeth

7. Rhaid i'r asesiad gynnwys manylion ynghylch—
- (a) ffigurau poblogaeth rhagamcanol ar gyfer ardal yr awdurdod lleol; a
 - (b) y prif dueddiadau a ffactorau sy'n debygol o effeithio ar y ffigurau hynny.

Dadansoddiad o'r bylchau

8. Rhaid i'r asesiad gynnwys dadansoddiad o'r cyflenwad a'r galw ac unrhyw fwlch yn y cyflenwad a'r galw am ddarpariaeth gofal plant yn ardal yr awdurdod lleol, gan gynnwys yn benodol—

- (a) darpariaeth gofal plant ar gyfer plant y mae eu rhieni yn gweithio oriau annodweddiadol;
- (b) darpariaeth gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg; ac
- (c) darpariaeth gofal plant ar gyfer categorïau iaith gwahanol.

Crynodeb anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu

9. Rhaid i'r asesiad gynnwys crynodeb o'r anghenion gofal plant nad ydynt yn cael eu diwallu yn ardal yr awdurdod lleol gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r canlynol—

- (a) y mathau o ofal plant sydd ar gael;
- (b) oedran y plant y mae gofal plant ar gael iddynt;
- (c) fforddiadwyedd gofal plant;
- (d) adegau pan fo gofal plant ar gael; ac
- (e) lleoliad y gofal plant.

Geographical distribution

4. The assessment must include details of—
- (a) the geographical distribution of each type of childcare in the local authority's area; and
 - (b) any gaps in that geographical distribution.

5. The assessment may take into account the availability of childcare which is outside the local authority's area but which is available to people living in the area.

Sustainability

6. The assessment must include details of any factors that have affected the sustainability of existing childcare providers in the local authority's area.

Projected population figures and trends

7. The assessment must include details of—
- (a) projected population figures for the local authority's area; and
 - (b) the main trends and factors likely to affect those figures.

Gap analysis

8. The assessment must include an analysis of the supply and demand and any gap in the supply and demand for childcare provision in the local authority's area, including in particular—

- (a) childcare provision for children of parents who work atypical hours;
- (b) Welsh medium childcare provision; and
- (c) childcare provision for different language categories.

Summary of unmet needs

9. The assessment must include a summary of the childcare needs which are not met in the local authority's area including those which relate to the—

- (a) types of childcare available;
- (b) age of children for whom childcare is available;
- (c) affordability of childcare;
- (d) times at which childcare is available; and
- (e) location of childcare.

Rhwystrau i ddarpariaeth gofal plant

- 10.** Rhaid i'r asesiad gynnwys manylion ynghylch—
- (a) hygyrchedd darpariaeth gofal plant;
 - (b) y rhwystrau a brofir gan—
 - (i) rhieni sy'n gweithio;
 - (ii) rhieni sy'n ceisio gwaith neu gyfleoedd hyfforddi;
 - (iii) aelwydydd di-waith;
 - (iv) teuluoedd ar incwm isel;
 - (v) teuluoedd rhiant unigol;
 - (vi) teuluoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig;
 - (vii) teuluoedd a chanddynt blant ag anghenion addysgol arbennig, neu anabledd.

Datblygu a hyfforddi

- 11.** Rhaid i'r asesiad gynnwys manylion ynghylch—
- (a) cymwysterau gofal plant sydd gan y gweithlu eisoës;
 - (b) anghenion hyfforddi'r gweithlu.

©©Hawlfraint y Goron 2016

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Barriers to childcare provision

- 10.** The assessment must include details of—
- (a) the accessibility of childcare provision;
 - (b) the barriers experienced by—
 - (i) working parents;
 - (ii) parents seeking work or training opportunities;
 - (iii) unemployed households;
 - (iv) low income families;
 - (v) lone parent families;
 - (vi) families from ethnic minority backgrounds;
 - (vii) families with children who have special educational needs, or a disability.

Development and training

- 11.** The assessment must include details of—
- (a) existing childcare workforce qualifications;
 - (b) workforce training needs.

© Crown copyright 2016

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2016 Rhif 88 (Cy. 42)

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

Rheoliadau Deddf Gofal Plant 2006
(Aseidiadau Awdurdodau Lleol)
(Cymru) 2016

2016 No. 88 (W. 42)

**CHILDREN AND YOUNG
PERSONS, WALES**

The Childcare Act 2006 (Local
Authority Assessment) (Wales)
Regulations 2016

£6.00

W2552/02/16

ON

ISBN 978-0-348-11242-9



9 780348 112429